+ 2/51

# CRI Y CARCHARORION.

TROM y galon, tra mae gwelydd
Mawr yn rhannu rhwng carennydd,
Tad a mam, a phlant a phriod,
Brawd a chwaer, a phob cydnabod;
Yn dihoeni wrth ei hunan,
Mewn oer gilfach, neu gul ibach yn gwael wban;
Heb ddim goleu, tân na gwely,
Na dim moddion, na da ddynion i'w diddanu.

2.

Trom y galon, tra mae'n gweled
Cwmp'ni atgas, diras, diriaid,
A'u drwg gilwg gyd â'u gilydd,
Yn dirboeni rhyw rai beunydd;
Rhai digasog, ffyrnig, creulon,
Fel yn Uffern, yma yw'r Gerthen ro'er yn gaethion;
Mewn gwedd ac anian, iaith a gweithred,
Yn rhai salw, o'r un ddelw a charn o ddiawlaid.

L.W. 1650

3.

Trom ein calon, tra mae'n clywed
Sgrêch y ddôr yn gwichio'n ddiriaid;
Trist yw clywed trwst y cloion
Yn cau drysau'r muriau mawrion;
Dadwrdd lingciau hei'rn yn tingcio,
Ydyw'r clychau, a'r llais main tenau sy' yma yn tiwnio:
Griddfan, cwyn, ac oer och'neidiau
Fyth breswylia'n holl anniddan hyll anneddau.

4.

Trom y galon, tra mae goleu
I rai 'nabod ein hwynebau;
Waith llu sy'n cyrchu i mewn i'r carchar
Bob dydd o rannau pell y ddaear;
Er cael mewn cyffes hanes hynod,
Faint yn ffiaidd yn ein buchedd wnaem o bechod:
Pan yr addefom, llawer adyn
Sy'n lle tosturio, yn ein gwawdio'n union gwedi'n.

5.

Trom y galon tra mae gwilwyr
Dewr yn cadw'r pyrth yn gywir:
Maith fesurau'r muriau mawrion,
Wnai'r gwr a'u gwelo'n oer ei galon;
Er eu trengu, rhaid cyn tringon'
Y fath uchder gael rhyw 'sgeler hir ysgolion;
Ac amhosibl fyth i gaeth-ddyn,
Gwthied fynno, allu treiddio tyllau trwyddyn'.

V2CS 247291

6.

Trom y galon, tra mae'r gwely
Yn wlyb o danaf, heb ei dannu;
Ar dwssw o wellt, heb un dilledyn
Rhwng fy mol i a'r pridd melyn:
Gyd â'r hwyr, mewn cell annifir
Dan gadwynau, a mawrion didau hei'rn y'm dodir;
Heb neb trwy'r nôs o fewn i'r cyntedd,
Rhag fy marw, yma o'u galw, a ry' ymgeledd.

7.

Dyma driniaeth wael, druenus,
I un a ga's ei fagu'n foethus;
Yr wyf yn agos i wallgofi
Wrth wel'd y newid byd ddaeth immi:
Mynnai fy rhieni mwynaf
Ro'i bob amser wely tyner, diwael tanaf,
A'r man yr awn i mewn rhyw anhwyl,
Cawn le cynnes i mi ym mynwes fy man anwyl.

8.

Gan wasgfa gofid, yn lle cysgu,
Tynnu 'ngwallt yr wyf, a gwylltu;
Mynych dreiglo, a thywallt dagrau,
Wrth wel'd y lle a wnes i 'nghartre';
Yno rhwyfo dwylo a berrau,
I gael torri, ac i dynnu'm hoer gadwynau;
Ond yn ol gwingo'm traed i'w herbyn,
A bod yn llonydd mewn egwydydd mae'n hwy gwedi'n.

9.

Cof am oriau, dyddiau diddan,
A boreu mebyd, 'bair i'm wban;
Yn y Gwanwyn, blodau gwynion
A ddarparent rawn-win purion;
Ond pan gododd gwynt ac oerfel,
Y dail a'r blodau i gyd a wywau gyd â'r awel;
Ac yn groes i'r hen obeithion,
'Nawr y dygant, er mawr soriant, rawn-win surion.

10.

Trom yw calon wirion, waraidd
Pawb o'm ceraint mwyn, cariaidd,
Sy' gan g'wilydd llym a galar.
Bron a ffaelu rhodio'r ddaear;
Darfu'n lân o fewn eu hannedd
Am bob diddig gân a miwsig, gwên a maswedd;
Mewn oer henaint mae'n rhieni
Yn cyd-wylo, 'nawr dan gwyno erioed ein geni.

11.

Chwi dadau mwynion, os dymunwch
Y doniau gorau i'r plant a gerwch,
Er y Byd, O! nag arbedwch
Eu ceryddu mewn careiddwch!
Distrywyd llawer trwy dosturi;
Eich plant na yrrwch, trwy'ch tirionwch, i'r Trueni;
Achub llawer llangc anhywaith,
Gwyllt, penhoeden, y mae'r wialen, rhag marwolaeth.

12.

Dysgwch ddeddfau'r Arglwydd iddynt,
Ymbiliwch arnynt, gweddiwch drostynt:
Arferwch i ryw waith yn foreu;
Gwiliwch rhag rho'i gormod gŵyliau;
Swydd o'i dilyn wella'r iechyd,
Sobra ffyliaid, ac a'u gwared rhag seguryd;
Deddfau glân, ac ofn yr Arglwydd
Yn yr enaid, fyth a'u gwared rhag pob gwradwydd.

13.

Blentyn ynfyd cais drugaredd,
I'th rieni rho anrhydedd;
Tra f'ech blentyn, dilyn d'alwad,
Ac adnebydd ddydd d'ymweliad;
Oni throi wrth lais d'athrawon
I gael perffaith iechydwriaeth, eurwych, dirion,
F'allai gwelir dithai'n bruddaidd,
Mewn carchar-dŷ, yn 'difaru am d'oferedd.

14.

Ofer ydyw i un fwriadu
Yn ei galon fyth i gelu
Cymmaint oll a wnel o gamwedd,
A ffoi rhag teimlo dwylo dialedd;
Ym mhen amser daw'r hên ddrygau
Wnaed mewn t'wyllwch a dirgelwch, oll i'r goleu;
Wedi rowndio'r byd i'r India,
Bydd cosp, er rofyn, o hîr ddilyn, yn siwr o ddala.

15.

Nid yw'r Ustus mawr a'r tystion,
Nid yw'r gwyr â'r gynau duon,
Nid yw'r sirydd llym ei soriant,
Nid yw'r arfog wyr a'u gwiliant,
Ond rhyw nodau dychrynadwy,
A chysgodau o ofidiau mwy ofnadwy
'R Sesiwn olaf, pan fydd Iesu
Mewn mawrhydi, ac heb wyrni yn ein barnu.

16.

Y mae'r baich trwm, mawr o bechod
Ar fy soddi lawr i'r gwaelod;
Daw 'ngweithredoedd erchyll, duon
Yn y tywyllwch fel ellyllon,
Dros y gaer a thrwy'r parwydydd,
O flaen fy llygaid, oll i'w gweled, o'r hylla i'w gilydd;
A'r Sarph Cydwybod rhwng fy nwyfron,
Saetha wenwyn ei du golyn hyd y galon.

17.

Os hapia ryw bryd i'm gael hepian,
Ni pheri'r hûn ond ennyd fechan;
Rhyw freuddwydion hyll arswydus,
A wna 'ngwsg i'n flin brawychus;
Rhedeg weithiau'r ydwy' ngwaetha',
Drwy goed a chreigydd rhag fy nialydd sy' ar fy nala;
Myn'd rhwng miloedd yn rhwym eilwaith,
Tan lesmeirio, a mawr ŵylo, i'm marwolaeth!

18.

Trom yw'r galon, tra mae'r golwg
Ar y gelyn garwa'i gilwg,
Yr angau dewr, â'i lifrau duon
Wna'r dewra a'i gwelo dorri ei galon;
Nid all un câr, na chyfaill mwynaidd
Gynorthwyo pan y delo poenau a dialedd:
I b'le trown pan codo storom,
Ac erchylldod y diwrnod mawr du arnom?

19.

Os oes cyfaill fo'n ein cofio
Yn deisyfu gwel'd ein safio,
Y rhai nesaf o'n perth'nasau,
Hyd 'nod brodyr ofna'n bradau;
Rhoddi tostur farn marwolaeth
Ar lofruddion mawr, a lladron, mae'r llywodraeth;
Er diogelu ei deiliaid ffyddlon,
Eu bywydau a'u meddiannau mewn modd union.

20.

Ofer disgwyl help o'r bryniau,
Nag o liaws y mynyddau;
Ni rydd Sior, sy' fawr ei soriant,
Un addewid o faddeuant;
Y mae'r gyfraith gaeth yn bwrw
'R adyn lleddfol, edifeiriol, fyn'd i farw;
Er dwys wban, nid oes obaith
Cael gan honno, gwedi ei digio, gadwedigaeth.

21.

Arglwydd graslon, tirion, tyred
O'm gerwin gyflwr yma i'm gwared;
Torr y rhwymau, y clymmau, a'r cloion
Sy'n dyn gul, am dan y galon;
Er bod dynion, am ei bechod
Mawr, anafus, a du warthus, wedi' wrthod;
Dyro i'r gwaela' erioed d'ymgeledd,
I gael gweled dôr agored i'th drugaredd.

22.

Mae hanesion i Manasse,
O ryw fan fel lle 'rwyf finnau,
Er ei gamwedd, gael dy gymmod,
A'i ryddhau o'r baich o bechod;
Fy mhechod galw mae am ddialedd,
Anwyl Iesu sy'n eirioli am drugaredd;
Gwrando, O Dad! ar ei eiriolaeth,
Pan b'wy' marw, a Mawr Elw fydd marwolaeth!

TERFYN

Williams, Argraphydd, Merthyr.